

# Crynodeb Gwirio Ansawdd

## Uned Asesu Achosion Brys Meddygol, Ysbyty Athrofaol Llandochau

### Dyddiad y gweithgarwch: 8 Rhagfyr 2020

Dyddiad cyhoeddi: 13 Ionawr 2021



Gellir darparu'r cyhoeddiad hwn a gwybodaeth arall gan AGIC mewn fformatau neu ieithoedd amgen ar gais. Bydd oedi byr wrth i ieithoedd a fformatau eraill gael eu cynhyrchu pan ofynnir amdanynt i ddiwallu anghenion unigol. Cysylltwch â ni am gymorth.

Bydd copïau o'r holl adroddiadau, pan gânt eu cyhoeddi, ar gael ar ein gwefan neu drwy gysylltu â ni:

Yn ysgrifenedig:

Rheolwr Cyfathrebu  
Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru  
Llywodraeth Cymru  
Parc Busnes Rhydycar  
Merthyr Tudful  
CF48 1UZ

Neu

Ffôn: 0300 062 8163  
E-bost: [AGIC@llyw.cymru](mailto:AGIC@llyw.cymru)  
Gwefan: [www.agic.org.uk](http://www.agic.org.uk)

# Cofnod o'r Canfyddiadau

## Ein Dull Gweithredu

Cynhaliodd Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru (AGIC) wiriad ansawdd o bell o'r Uned Asesu Achosion Brys Meddygol (MEAU) yn Ysbyty Athrofaol Llandochoau fel rhan o'i rhaglen o waith sicrwydd. Caiff cleifion eu hatgyfeirio at yr MEAU gan feddygon teulu ac mae'n derbyn cleifion galwadau ambiwlans 999, o fewn ardal ddaearyddol benodedig sy'n bodloni'r meini prawf derbyn.

Mae gwiriadau ansawdd AGIC yn rhan o ddull haenog newydd o ymdrin â gwaith sicrwydd ac maent yn un o blith nifer o ffyrdd y mae'n archwilio'r ffordd y mae gwasanaethau gofal iechyd yn cyrraedd Safonau Iechyd a Gofal 2015 (a rheoliadau perthnasol eraill). Rhoddir adborth i gynrychiolwyr gwasanaethau ar ddiwedd y gwiriad ansawdd, mewn ffordd sy'n cefnogi dysgu, datblygu a gwella ar lefel weithredol a lefel strategol.

Mae Gwiriadau Ansawdd yn rhoi cipolwg ar y safonau gofal o fewn lleoliadau gofal iechyd. Cânt eu cynnal oddi ar y safle yn gyfan gwbl ac maent yn canolbwyntio ar dri maes allweddol; atal a rheoli heintiau, llywodraethu (yn enwedig yn ymwneud â staffio) a'r amgylchedd gofal. Mae'r gwaith yn canolbwyntio ar y trefniadau a roddwyd ar waith i ddiogelu'r staff a'r cleifion rhag COVID-19, ac yn ein galluogi i roi cyngor cyflym a chefnogol ar y dull o weithredu gwasanaethau'n ddiogel yn ystod y pandemig. Gellir dod o hyd i ragor o wybodaeth am ein dull arolygu [yma](#).

Gwnaethom siarad ag Uwch-Nyrs y Gyfarwyddiaeth Meddygaeth Frys ac Aciwt ar 8 Medi 2020 a roddodd wybodaeth a thystiolaeth inni am ei lleoliad. Defnyddiwyd y llinellau ymholi allweddol canlynol:

- Sut rydych yn sicrhau bod trefniadau llywodraethu a staffio yn effeithiol, a'u bod yn helpu i ddarparu gofal diogel ac effeithiol? Pa newidiadau, os o gwbl, a wnaed i'r trefniadau hyn yn sgil COVID-19?
- Sut rydych yn sicrhau bod y risg o haint sy'n gysylltiedig â gofal iechyd yn cael ei hasesu a'i rheoli i gadw cleifion, ymwelwyr a staff yn ddiogel? Pa newidiadau rydych wedi'u rhoi ar waith yn sgil COVID-19 er mwyn sicrhau bod y safonau atal a rheoli heintiau'n cael eu cynnal?
- Sut rydych yn sicrhau bod yr amgylchedd yn ddiogel i staff, cleifion ac ymwelwyr, a sut rydych yn sicrhau ei fod yn cynnal urddas ac yn rhoi cysur i'r cleifion? Pa newidiadau a wnaed i'r amgylchedd yn sgil COVID-19 i sicrhau ei fod yn ddiogel i staff, cleifion ac ymwelwyr?
- Beth yw'r broses ar gyfer sicrhau bod llif cleifion drwy'r Uned Asesu yn amserol, yn

---

ddiogel ac yn effeithiol?

## Yr Amgylchedd

Yn ystod y gwiriad ansawdd, gwnaethom ystyried y ffordd y mae'r gwasanaeth wedi ymateb i heriau COVID-19. Gwnaethom ystyried y ffordd y mae'r gwasanaeth wedi dylunio a rheoli'r amgylchedd gofal er mwyn ei gadw mor ddiogel â phosibl i'r cleifion, y staff ac ymwelwyr. Edrychwyd ar asesiadau risg diweddar, adolygiadau o ddigwyddiadau ac unrhyw achosion o friwiau pwyso neu niwed i'r meinwe. Hefyd, holwyd y gwasanaeth am y newidiadau y mae wedi'u gwneud er mwyn sicrhau bod y cleifion yn parhau i dderbyn gofal a thriniaeth i ddiwallu eu hanghenion.

### **Cafwyd y dystiolaeth gadarnhaol ganlynol:**

Disgrifiwyd nifer o fesurau i sicrhau bod pobl yn cadw pellter cymdeithasol. Dangosodd hyn fod yr MEAU yn hyderus wrth gymhwyso amrywiaeth o fesurau amgylcheddol i leihau'r risg o COVID-19. Roedd hyn yn cynnwys symud troliau a gwelyau er mwyn gwneud yn siŵr bod hyn yn bosibl. Yn yr ardaloedd staff, defnyddiwyd tâp i roi croesau neu diciâu ar gadeiriau, ac roedd cadeiriau a byrddau wedi'u tynnu o ystafelloedd er mwyn creu mwy o le. Roedd arwyddion a marciau ar y llawr i helpu llif cleifion, roedd y staff yn gwisgo masgiau o leiaf er mwyn lleihau'r risg cymaint â phosibl. Soniodd yr uwch-nyrs hefyd am y cynnydd yn yr amserlenni glanhau er mwyn sicrhau bod yr Uned yn cael ei glanhau'n rheolaidd ac yn drylwyr.

Dywedwyd wrthym fod ymwelwyr ond yn cael dod i mewn o dan amgylchiadau eithriadol, gan gynnwys gofal diwedd oes lle roedd gan gleifion anghenion penodol fel anabledd dysgu neu nam gwybyddol. O dan yr amgylchiadau hyn, roedd y staff yn helpu ac yn cynghori ymwelwyr ar sut i ddefnyddio cyfarpar diogelu personol (PPE) i ddiogelu eu hunain a'r cleifion. Roedd trefniadau ar waith i sicrhau cyfathrebu rheolaidd â pherthnasau'r cleifion. Roedd hyn yn cynnwys enwebu un aelod o'r teulu y byddai'r staff yn cysylltu ag ef. Roedd y staff hefyd yn darparu llechi a ffonau di-wifr i'r cleifion er mwyn iddynt gysylltu â'u perthnasau. Roeddent yn cael eu glanhau ar ôl iddynt gael eu defnyddio.

### **Nodwyd y meysydd canlynol i'w gwella:**

Darparwyd tystiolaeth inni o archwiliadau niwed briwiau pwyso a chwympiadau a ddangosai fod cydymffurfiaeth o ran y meysydd a gwmpesir gan yr archwiliadau o dan 75%. Dywedwyd wrthym fod yr uwch-nyrs yn cynnal mwy o hapwiriadau a bod nodiadau atgoffa wedi cael eu rhoi i'r staff. Dywedwyd wrthym mai gwallau gyda'r ddogfennaeth oedd yn gyfrifol am y diffyg cydymffurfiaeth. Byddai unrhyw ddysgu yn cael ei rannu mewn sesiynau briffio ar ddiogelwch a chyfarfodydd staff. Nid oedd unrhyw ddull ar waith i fonitro pa staff oedd wedi cael y nodiadau atgoffa a'r gwersi a ddysgwyd, er enghraifft, os oedd staff yn

---

absennol o'r gwaith.

Rhaid i'r bwrdd iechyd roi dull ar waith i sicrhau bod pob aelod o'r staff yn cael y nodiadau atgoffa a'r gwersi a ddysgwyd yn dilyn unrhyw ddigwyddiadau a gwiriadau ansawdd AGIC. Rhaid i'r system gynnwys tystiolaeth ysgrifenedig i ddangos bod pob aelod o'r staff yn derbyn y wybodaeth berthnasol. Rhaid iddi hefyd sicrhau cydymffurfiaeth â'r safonau yn y dyfodol, fel gwneud yn siŵr bod nodiadau'r cleifion yn gyflawn.

Nid oedd yr uned yn gallu darparu tystiolaeth o asesiad risg amgylcheddol, ond cawsom gopi o'r archwiliad diogelwch tân diwethaf, dyddiedig mis Chwefror 2019. O ganlyniad, mae'n bosibl bod yr uned wedi colli cyfleoedd i nodi problemau gyda'r amgylchedd yn ffurfiol a allai beri risg i iechyd a diogelwch y cleifion a'r staff.

Mae'n rhaid i'r bwrdd iechyd sicrhau bod asesiad risg amgylcheddol yn cael ei gynnal, ynghyd â chynllun gweithredu a gaiff ei ddiweddarau'n rheolaidd. Mae'n rhaid i'r asesiad risg gael ei ddiweddarau'n rheolaidd, a hynny'n ddigon aml i sicrhau y caiff y risgiau eu nodi. Rhaid i asesiad risg amgylcheddol gael ei gynnal cyn gynted â phosibl a'i anfon i AGIC ar ôl ei gwblhau.

## Atal a rheoli heintiau

Yn ystod y gwiriad ansawdd, gwnaethom ystyried pa mor dda y mae'r gwasanaeth yn rheoli'r risg o haint er mwyn helpu i gadw'r cleifion, ymwelwyr a'r staff yn ddiogel. Edrychwyd ar bolisiau rheoli heintiau, cyfraddau heintio ac asesiadau risg. Gwnaethom adolygu systemau allweddol, gan gynnwys y defnydd o PPE.

### Cafwyd y dystiolaeth gadarnhaol ganlynol:

Gwelsom hunanasesiad yr uned, a ddywedodd fod pob claf sy'n dod i'r MEAU yn cael ei frysbenno a'i asesu am unrhyw symptomau heintus. Roedd mesurau hylendid dwylo a 'noeth o dan y penelin' yn cael eu cynnal ym mhob rhan o'r uned ac roedd lefelau cydymffurfiaeth â'r rhain yn cael eu harchwilio bob mis. Dywedwyd wrthym fod y staff wedi cael eu hyfforddi a'u hasesu ar Dechnegau Di-gyffwrdd Aseptig<sup>1</sup> (ANTT) a bod disgwyl iddynt ddefnyddio'r PPE cywir mewn achosion lle ceir haint ac yn ystod eu dyletswyddau cyffredinol yn yr uned. Os oedd ymwelwyr yn dod i'r uned, fe'u hanogwyd i olchi eu dwylo a defnyddio gel alcohol a PPE yn ôl yr angen.

Roedd cleifion yn cael eu nyrsio ar gadeiriau, troliâu neu welyau triniaeth ac roedd llenni o gwmpas yr ardaloedd hyn. Dywedwyd wrthym fod gan bob ardal droli gloch alw i dynnu sylw staff pan fyddai angen help. Cynhaliwyd asesiadau risg wrth dderbyn cleifion. Roedd y rhain yn cael eu harchwilio bob mis i sicrhau bod cydymffurfiaeth ac arferion gorau yn cael

---

<sup>1</sup>Mae ANTT (Techneg Ddi-gyffwrdd Aseptig) yn Fframwaith Ymarfer cynhwysfawr ar gyfer y dechneg aseptic i'w defnyddio ar gyfer pob gweithdrefn fewnwithiol, o lawdriniaeth fawr i waith cynnal a chadw ar ddyfeisiau mewnwithiol.

---

eu cynnal. Roedd tîm arlwyo penodol a'r staff yn cefnogi maethiad a hydradiad y cleifion. Darparwyd prydau poeth ar gyfer pob pryd yn ystod y dydd a darparwyd bwyd yn ystod y nos yn ôl yr angen.

Dywedwyd wrthym fod yr uned wedi addasu i'r pandemig presennol drwy ailddylunio rhannau o'r adran a rhoi mesurau Atal a Rheoli Heintiau ychwanegol ar waith. Roedd hyn yn cynnwys nodi dwy ardal yn ardaloedd oren a phorffor. Roedd yr ardal borffor i gleifion yr amheuwyd bod ganddynt COVID-19, tra bod yr ardal oren i gleifion a oedd wedi cael prawf negatif am COVID-19.

Dywedodd yr uwch-nyrs fod profion COVID-19 ar gael yn hawdd i'r staff a'r cleifion. Gallai'r staff wneud cais am brawf brys i gleifion yn yr ardal borffor. Byddai'r canlyniadau ar gael o fewn dwy awr. Roedd pob claf arall yn cael prawf swab safonol, a allai gymryd 24 awr i ddarparu'r canlyniadau. Roedd prosesau ar waith i symud cleifion yn ddiogel o un ardal i'r llall. Roedd y rhain yn cynnwys sicrhau bod canlyniadau profion wedi dychwelyd cyn trosglwyddo. Gofynnwyd i'r cleifion wisgo gorchudd wyneb os oedd yn bosibl iddynt wneud hynny.

Un o'r ardaloedd yn yr uned oedd yr Uned Gwella Gofal (ECU), i gleifion â salwch aciwt. Roedd pedwar gwely a oedd yn cael eu monitro'n ganolog, yn ogystal â phum sianel telemetreg a oedd yn cael eu cefnogi<sup>2</sup>. Roedd cyfleusterau a sganiau tomograffeg gyfrifiadurol<sup>3</sup> (CT) ar gael, a gellid darparu ymyriadau arbenigol, fel thrombolysis<sup>4</sup> pe bai ei angen ar frys.

Roedd diweddariadau dyddiol ar COVID-19 yn cael eu rhannu â'r staff drwy e-bost gan y prif swyddog gweithredol ac ar y porthol clinigol neu'r fewnrwyd. Roedd hyn yn sicrhau y gallai'r staff gael gafaél ar y canllawiau mwyaf diweddar a chyfredol. Dywedwyd wrthym nad oedd gan y bwrdd iechyd bolisi Atal a Rheoli Heintiau cyffredinol. Roedd canllawiau'r bwrdd iechyd yn cael eu datblygu ar gyfer meysydd pwnc penodol y gallai'r staff gael gafaél arnynt ar fewnrwyd y bwrdd iechyd. Roedd y bwrdd iechyd yn darparu nifer o systemau eraill a dolenni i'r staff eu defnyddio i gael gafaél ar ganllawiau. Roedd dolen ar dudalen Atal a Rheoli Heintiau ar fewnrwyd y staff er mwyn iddynt gael gafaél ar y Llawlyfr Cenedlaethol ar Atal a Rheoli Heintiau ar wefan Iechyd Cyhoeddus Cymru a Sefydliad Cenedlaethol dros Ragoriaeth mewn Iechyd a Gofal (NICE)<sup>5</sup> ar atal heintiau sy'n gysylltiedig â gofal sylfaenol a gofal cymunedol. Roedd y bwrdd iechyd wedi dewis peidio â llunio ei

---

<sup>2</sup> Telemetreg, sef yr arfer o anfon signalau electronig o un man i fan arall. Mae'n galluogi staff yr ysbyty i fonitro curiad calon, rhythm calon, anadlu a phethau eraill wrth wely'r claf ac o bell, er enghraifft mewn gorsaf nyrsio.

<sup>3</sup> Mae sgan CT yn defnyddio pelydrau-X a chyfrifiadur i greu delweddau manwl o'r tu mewn i'r corff.

<sup>4</sup> Mae thrombolysis yn driniaeth sy'n toddi neu'n torri clot gwaed yn ddarnau bach. Gall clot gwaed atal llif gwaed i rannau o'r corff a pheryglu bywyd. Gall thrombolysis ddychwelyd y llif gwaed a lleihau niwed i rannau fel yr ymennydd, y galon neu'r ysgyfaint.

<sup>5</sup> Mae'r Sefydliad Cenedlaethol dros Ragoriaeth mewn Iechyd a Gofal (NICE) yn un o gyrff cyhoeddus anadrannol gweithredol yr Adran Iechyd yn Lloegr, sy'n cyhoeddi canllawiau (i'w defnyddio yn y GIG yng Nghymru ac yn Lloegr) mewn pedwar maes, y mae ymarfer clinigol (canllawiau ar y driniaeth a'r gofal priodol i bobl ag afiechydon a chyflyrau penodol) yn un ohonynt

---

bolisi penodol ei hun ar gyfer COVID-19 am fod y rheolau'n cael eu diwygio'n aml. Yn hytrach, crëwyd tudalen benodol ar fewnwyd y bwrdd iechyd er mwyn i'r staff gael gfael ar gyngor a chanllawiau ar COVID-19. Cyfeiriwyd y staff drwy'r dolenni at wefannau Llywodraeth Cymru, Iechyd Cyhoeddus Cymru a Public Health England.

### **Nodwyd y meysydd canlynol i'w gwella:**

Fel y soniwyd uchod, nid oedd gan y bwrdd iechyd bolisi Atal a Rheoli Heintiau cyffredinol. Roedd canllawiau'r bwrdd iechyd wedi'u datblygu ar gyfer meysydd pwnc penodol y gallai'r staff gael gfael arnynt ar fewnwyd y bwrdd iechyd. Gwnaethom ddewis dwy ddogfen o restr a ddarparwyd ar yriannau cyfrifiadurol a rennir yr ysbyty. Nid oedd angen adolygu'r Weithdrefn Rheoli Heintiau ar gyfer Staffylococcus Aureus Ymwrthol i Methisilin (MRSA)<sup>6</sup> mewn Ysbytai Acíwt tan fis Rhagfyr 2020. Roedd y weithdrefn hon yn nodi'r gofynion ar gyfer sgrinio am MRSA yn ogystal â'r gwaith o reoli cleifion y canfuwyd eu bod wedi cael prawf positif am MRSA. Fodd bynnag, roedd yr adolygiad o'r Weithdrefn Rheoli Heintiau ar gyfer Digwyddiadau Heintus a Brigiadau mewn Ysbytai Byrddau Iechyd Athrofaol yn hwyr, gyda'r dyddiad adolygu wedi'i nodi fel mis Mawrth 2019. Nod y weithdrefn hon yw sicrhau bod pob aelod o staff y bwrdd iechyd yn deall goblygiadau brigiadau o heintiau mewn gofal iechyd ac yn gallu cysylltu â'r staff cywir er mwyn rheoli neu atal brigiad. Yn ogystal, y nod yw sicrhau y caiff y gwaith o reoli brigiad ei hwyluso gan grŵp rheoli brigiad â'r cyfansoddiad priodol.

Dylai'r bwrdd iechyd sicrhau bod dogfennau sydd wedi darfod yn cael eu hadolygu, eu diwygio a'u hailgyflwyno fel y bo angen. At hyn, rhaid i'r bwrdd iechyd rhoi gwybod i AGIC pam nad yw'r rhain yn cael eu hadolygu ar amser, pryd y caiff yr adolygiad ei gwblhau a pha broses a gaiff ei rhoi ar waith i sicrhau bod y dogfennau pwysig hyn yn cael eu hadolygu'n rheolaidd yn y dyfodol.

## **Llywodraethu**

Fel rhan o'r safon hon, ystyriodd AGIC a yw trefniadau rheoli yn sicrhau bod digon o staff sydd wedi cael hyfforddiant priodol ar y ward i ddarparu gofal diogel ac effeithiol.

Gwnaethom edrych ar lefelau staffio a chleifion, hyfforddiant ac absenoldebau staff, strwythurau rheoli, swyddogaethau a chapasiti'r ward, digwyddiadau ac amrywiaeth o bolisiau (megis uwchgyfeirio).

### **Cafwyd y dystiolaeth gadarnhaol ganlynol:**

Fel y nodwyd uchod, dangosodd yr hunanasesiad a ddarparwyd fod yr MEAU yn cynnwys ardaloedd triniaeth, ardaloedd trolïau ac ECU. Ers dechrau COVID-19, mae wedi bod yn ofynnol i'r MEAU wahanu'r llif cleifion. Gwahanwyd y llifau yn gleifion yr amheuwyd bod

---

<sup>6</sup> Math o facteria yw MRSA a all wrthsefyll sawl math o wrthfotig a ddefnyddir yn gyffredin. Mae hyn yn golygu y gall heintiau ag MRSA fod yn anos i'w trin na heintiau bacterol eraill.

---

ganddynt COVID-19 (porffor) a chelfion lle roedd amheuaeth isel fod ganddynt COVID-19 (oren). Dywedwyd wrthym fod hyn wedi arwain at ailgyflunio'r uned. Disgrifiwyd y lefelau staffio, yr ardaloedd a'r offer hefyd.

Disgrifiwyd bod model cylchdroi ar gyfer staffio ar waith rhwng yr MEAU yn Ysbyty Athrofaol Llandochoau ac ysbytai eraill y bwrdd iechyd ag unedau mân anafiadau, adrannau achosion brys ac unedau asesu. Roedd hyn yn sicrhau bod y staff yn cynnal setiau gwahanol o sgiliau ac yn helpu uwch aelodau o'r staff wrth lenwi bylchau staffio oherwydd salwch tymor byr.

Dywedwyd wrthym fod staffio'r uned yn cael ei gynllunio sawl wythnos ymlaen llaw a bod cyfarfod staffio dyddiol yn cael ei gynnal er mwyn asesu a lleoli staff ar sail risg. Roedd nifer o swyddi gwag yn yr uned. Fodd bynnag, dywedwyd wrthym fod yr uned wedi recriwtio'n ddiweddar a bod deg aelod o staff cymwys yn dechrau yn y Flwyddyn Newydd. Er mwyn llenwi unrhyw fylchau yn y cyfamser, defnyddiwyd staff banc yn ôl yr angen, ac roedd aelodau parhaol o'r staff hefyd yn gweithio gormaser er mwyn cyflenwi ar gyfer salwch ac absenoldebau.

Roedd Adnodd Asesu Risg COVID-19 i Gymru Gyfan<sup>7</sup> yn cael ei ddefnyddio a dywedodd yr uwch-nyrs fod hyn wedi'i gwblhau ar gyfer pob aelod o'r staff. Roedd hyn yn sicrhau bod y staff a oedd yn agored i niwed yn glinigol yn cael eu nodi a bod mesurau lliniaru yn cael eu rhoi ar waith er mwyn diogelu'r aelodau o'r staff. Roedd nifer o aelodau o staff wedi'u hail-leoli i ardaloedd risg is eraill oherwydd eu lefel risg. Roedd hyn wedi cael effaith ar staffio yn yr uned. Roedd asesiadau risg beichiogrwydd ar waith hefyd ar gyfer staff beichiog.

Gwelsom dystiolaeth mai'r cyfartaledd ar gyfer cydymffurfio â hyfforddiant gorfodol craidd oedd 73% ym mhob pwnc. Dywedwyd wrthym fod yr holl hyfforddiant sy'n gofyn am addysg wyneb yn wyneb wedi cael ei ganslo. Dylai'r bwrdd iechyd ystyried pob opsiwn er mwyn mynd i'r afael â'r risgiau o beidio â sicrhau bod y staff yn cael hyfforddiant gorfodol cyfredol. Gallai hyn gynnwys parhau i chwilio am ddarparwyr mewnol neu allanol i ddarparu hyfforddiant wyneb yn wyneb pan aseswyd bod y dull asesu hwn yn ddiogel ac yn briodol. Os na fydd hyn yn bosibl, dylai'r bwrdd iechyd ystyried a allai'r hyfforddiant gael ei ddarparu drwy ddulliau digidol, fel gweminarau, fideogynadleda neu raglenni e-ddysgu.

Dywedwyd wrthym fod goruchwyliaeth ar waith a bod adolygiadau arfarnu perfformiad a datblygu (PADR)<sup>8</sup> yn dal i gael eu cynnal, gyda 67% wedi'u cwblhau hyd yma. Caiff y rhain eu cynnal ar ffurf sy'n seiliedig ar werthoedd<sup>9</sup> yn y dyfodol, gyda phob band 7 yn cwblhau'r hyfforddiant hwn, er mwyn gwella'r broses ragolwg. Dywedwyd wrthym hefyd fod cynllun ar waith i sicrhau cydymffurfiaeth lawn erbyn diwedd mis Ionawr 2021. Mae AGIC yn disgwyl i'r

---

<sup>7</sup> Mae Adnodd Asesu Risg COVID-19 ar gyfer y Gweithlu i Gymru Gyfan yn asesiad risg dau gam, sy'n addas i'w ddefnyddio gyda phob aelod o staff agored i niwed neu sy'n wynebu risg o ddal y coronafeirws, gan gynnwys pobl o gefndiroedd BAME. Fe'i dyluniwyd i fod yn broses sensitif a chefnogol.

<sup>8</sup> Mae'r rhain yn cael eu cynnal i sicrhau bod y staff yn datblygu ymhellach a bod cyfleoedd yn cael eu creu mewn perthynas â datblygiad proffesiynol, arweinyddiaeth a sgiliau clinigol.

<sup>9</sup> Mae dull nyrsio yn seiliedig ar werthoedd yn cynnwys ystyried gwerthoedd yn ogystal â'r sail dystiolaeth wrth wneud penderfyniadau am ofal.



---

rhain gael eu cwblhau fel y cytunwyd, ac mae'n ystyried bod sicrhau cydymffurfiaeth â chyfraddau cwblhau ar gyfer adolygiadau gwerthuso perfformiad a datblygiad yn y dyfodol yn flaenoriaeth i'r bwrdd iechyd.

Dyweddodd yr uwch-nyrs wrthym fod y pandemig wedi effeithio'n sylweddol ar lesiant. Roedd mwy o gyfathrebu'n digwydd, gan gynnwys cylchlythyrau a fideos gwybodaeth. Roedd ymarferwyr iechyd galwedigaethol ar gael i bob aelod o'r staff. Roedd tîm strategaeth llesiant ar waith i gefnogi staff a deimlai fod angen iddynt siarad â rhywun.

Gwelsom dystiolaeth fod risgiau a digwyddiadau'n cael eu nodi a'u cofnodi ar y system electronig ar gyfer rhoi gwybod am ddigwyddiadau. Roedd y system yn galluogi'r staff i uwchgyfeirio risgiau a digwyddiadau yn ôl yr angen. Dywedwyd wrthym fod yr uwch aelodau o'r staff yn ceisio cau'r cylch adborth drwy adrodd yn ôl i'r staff sy'n cwblhau'r ffurflenni hyn. Fodd bynnag, mae'r sylw am faes i'w wella yn yr adran 'Amgylchedd' uchod yn ymwneud â darparu tystiolaeth am yr adborth hwn hefyd yn berthnasol yma. Ymchwiliwyd i ddigwyddiadau ar lefelau gwahanol gan ddibynnu ar natur a difrifoldeb y digwyddiad. Caiff hyn ei ychwanegu at y cynllun gwella llawn isod.

Dywedwyd wrthym fod yr uned yn sicrhau bod amddiffyniad diogelu a threfniadau diogelu wrth amddifadu o ryddid (DoLS)<sup>10</sup> yn cael eu cynnal gyda chleifion yn ôl yr angen er mwyn sicrhau bod cleifion agored i niwed yn cael eu diogelu rhag niwed, camdriniaeth neu esgeulustod. Roedd ardaloedd tawel yn yr uned i'w defnyddio gan gleifion ag anghenion penodol fel anabledau dysgu a dementia. Gallai gofalwyr fynd gyda'r cleifion hyn hefyd. Roedd nyrsys arbenigol ar gael hefyd a rhoddwyd fflag ar system nodiadau'r claf fel nodyn atgoffa. Sicrhaodd yr uned fod ciwbiclau yn cael eu defnyddio ar gyfer unrhyw blant a oedd yn dod i'r uned.

Gwelsom dystiolaeth o Gynllun Atal ac Ymateb i COVID-19 sy'n ymdrin ag ardal Bwrdd Iechyd Prifysgol Caerdydd a'r Fro. Roedd hyn yn cynnwys yr holl rannau roedd y bwrdd iechyd wedi'u datblygu fel rhanbarth er mwyn cyflwyno ymateb Profi, Orlhain, Diogelu rhanbarthol effeithiol. Fe'i paratowyd yn gydweithredol a'i gymeradwyo gan y Bwrdd Iechyd Prifysgol ac awdurdodau lleol Caerdydd a Bro Morgannwg. Gwelsom hefyd y cyflwyniad diweddar i Bwyllgor Iechyd, Gofal Cymdeithasol a Chwaraeon y Senedd.

At hynny, gwelsom dystiolaeth o gyfarfodydd tîm rheolaidd a gynhaliwyd bob mis lle trafodwyd amrywiaeth o faterion a'u cyfleu i'r staff.

Roedd adborth gan gleifion yn cael ei drefnu gan dîm profiad y claf y bwrdd iechyd. Oherwydd y pandemig, ni chynhaliwyd unrhyw arolygon gyda chleifion ers mis Chwefror 2020. Roedd yr arolwg diwethaf a gynhaliwyd yn cynnwys adborth a sylwadau cadarnhaol am

---

<sup>10</sup> Mae'r Trefniadau Diogelu wrth Amddifadu o Ryddid (DOLS) yn rhan o Ddeddf Galluedd Meddyliol 2005. Maent yn gymwys i oedolion sydd mewn ysbyty neu sy'n byw mewn cartref gofal neu lety â chymorth nad oes ganddynt y galluedd meddyliol i gydsynio i driniaeth neu ofal. Mae angen gofal ar bobl mewn ffordd sy'n sicrhau eu bod yn ddiogel ond dylent hefyd fod yn rhydd i wneud yr hyn y maent yn dymuno'i wneud, i'r graddau y mae hynny'n bosibl.

---

yr uned.

**Ni nodwyd unrhyw welliannau.**

## Llif cleifion

Ar gyfer Unedau Asesu, teimlai AGIC ei bod yn bwysig ystyried llif cleifion drwy'r adran. Nod hyn yw sicrhau bod cleifion yn cael eu hasesu, eu derbyn a'u rhyddhau mewn modd amserol.

### **Cafwyd y dystiolaeth gadarnhaol ganlynol:**

Disgrifiwyd y llif cleifion. I ddechrau, byddai'r cleifion yn cael eu hatgyfeirio gan eu meddyg teulu, drwy'r system archebu gwely ym mhencadlys y bwrdd iechyd. Roedd hyn yn golygu mai dim ond derbyniadau meddyg teulu a oedd yn briodol ar gyfer lefel y gofal a gynigir gan yr MEAU a fyddai'n cael eu cyfeirio yno. Yn ogystal, byddai ambiwlansiau brys Ymddiriedolaeth Gwasanaethau Ambiwylans Cymru yn cael eu galw gan yr uned gan ddibynnu ar leoliad a'r driniaeth gyfyngedig roedd ei hangen ar y claf, yn seiliedig ar brotocolau y cytunwyd arnynt. Os oedd y cleifion yn rhy sâl neu os oedd angen lefel uwch o ofal arnynt, byddent yn cael eu dargyfeirio at Ysbyty Athrofaol Cymru.

Dywedwyd wrthym fod y cleifion yn aros yn yr uned am hyd at 48 awr, ond y byddai hyn yn cael ei ymestyn ddiwrnod yn unig ar achlysuron prin. Roedd yr uned wedi prynu troliâu newydd gyda matresi lleddfu pwysau, y gellid eu defnyddio am hyd at 48 awr. Byddai cleifion a fyddai'n aros yn yr uned am fwy o amser na hyn yn cael eu trosglwyddo i wely ysbyty isel. Byddai'r staff yn penderfynu fesul claf a fyddai angen troli neu wely, yn seiliedig ar anghenion unigol y claf. Cynhelid asesiad risg yn hyn o beth cyn derbyn y claf. Roedd system gyfrifiadurol yn monitro am ba hyd y byddai cleifion yn yr uned. Roedd staff yr uned a rheolwyr gwelyau yn monitro hyn yn rhagweithiol. Pe bai'r galw yn uwch na chapasiti'r safle, dywedwyd wrthym y byddai atgyfeiriadau gan feddygon teulu yn cael eu dargyfeirio at yr Uned Asesu yn Ysbyty Athrofaol Cymru. Yn yr un modd, gallai Ysbyty Athrofaol Cymru ddargyfeirio derbyniadau at yr MEAU yn ôl yr angen.

Dywedodd yr uwch-nyrs fod gweithwyr proffesiynol a thimau aml-ddisgyblaethol arbenigol ar gael i'r uned yn ôl yr angen. Roedd y rhain yn cynnwys therapyddion galwedigaethol, ffisiotherapyddion a therapyddion lleferydd ac iaith. Roedd meddygon ymgynghorol aciwt yn bresennol yn yr MEAU bob amser. Roedd hyn yn sicrhau bod y cleifion yn cael trosolwg a mewnbwn gan uwch-feddyg yn ôl yr angen.

Dywedwyd wrthym fod cyfarfodydd uned yn cael eu cynnal bob dwy awr er mwyn sicrhau bod y llif cleifion yn cael ei ystyried yn rheolaidd. Yn ogystal, roedd cyfarfodydd pedwar gwely yn cael eu cynnal ar wahanol adegau yn ystod y dydd. Yn y cyfarfodydd hyn, byddai staff o wahanol adrannau o'r ysbyty yn asesu ac yn adolygu'r cleifion a oedd yn aros i ddod i mewn a'r cleifion a oedd yn aros am wely. Gwelsom dystiolaeth o Sbardunau Cardiau Uwchgyfeirio MEAU a chamau i'w cymryd; a chynllun uwchgyfeirio cadw pellter cymdeithasol

---

MEAU sy'n disgrifio'r broses ar gyfer uwchgyfeirio at uwch reolwyr. Dyrennir gwelyau i gleifion, pe bai angen, mewn ward borffor neu oren berthnasol gan ddibynnu a oeddent wedi cael prawf positif am COVID-19 ai peidio, wrth iddynt ddod ar gael.

**Nodwyd y meysydd canlynol i'w gwella:**

Dywedwyd wrthym na fyddai cleifion yn aros yn yr uned am fwy na 48 awr fel arfer, ond roedd achlysuron pan fu cleifion yn yr uned am fwy o amser na hyn. Fodd bynnag, ni chasglwyd unrhyw ddata a fyddai'n dangos pa mor aml y mae hyn yn digwydd. Hefyd, dywedwyd wrthym nad oedd data'n cael eu casglu i gofnodi am ba mor hir roedd cleifion yn yr uned neu'n aros i gael eu gweld gan weithiwr gofal iechyd proffesiynol. Er ei bod yn ddigon posibl bod y staff yn ymwybodol o hyd arhosiad cleifion unigol yn yr uned, mae cyfle yn cael ei golli i nodi themâu a thueddiadau drwy beidio â chasglu'r wybodaeth hon.

Dylai'r bwrdd iechyd ystyried cyflwyno targedau a mesurau, gan gynnwys amseroedd aros, amser rhwng triniaethau ac amser a gaiff ei dreulio yn yr uned.

---

# Beth nesaf?

Lle rydym wedi nodi gwelliannau yn ystod ein gwiriad, y mae'n ofynnol i'r gwasanaeth gymryd camau yn eu cylch, nodir y rhain yn y cynllun gwella isod.

Lle mae angen cynllun gwella, dylid:

- Nodi'n glir sut yr eir i'r afael â'r canfyddiadau a nodwyd
- Sicrhau bod y camau a gymerir mewn ymateb i'r materion a nodwyd yn benodol, yn fesuradwy, yn gyflawnadwy, yn realistig ac wedi'u hamseru
- Cynnwys digon o fanylion er mwyn rhoi sicrwydd i AGIC a'r cyhoedd yr eir i'r afael â'r canfyddiadau a nodwyd yn ddigonol
- Sicrhau bod y dystiolaeth ofynnol yn erbyn y camau a nodwyd yn cael ei rhoi i AGIC o fewn tri mis i'r Gwiriad Ansawdd.

O ganlyniad i ganfyddiadau'r gwiriad ansawdd hwn, dylai'r gwasanaeth wneud y canlynol:

- Sicrhau nad yw'r canfyddiadau yn systemig ar draws rhannau eraill o'r sefydliad ehangach
- Rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf i AGIC pan fydd camau yn dal i fod heb eu cymryd a/neu ar y gweill, er mwyn cadarnhau pan fyddant wedi cael eu cwblhau.

Caiff y cynllun gwella, ar ôl cytuno arno, ei gyhoeddi ar wefan AGIC.

# Cynllun gwella

Lleoliad: Ysbyty Athrofaol Llandochau

Ward: Uned Asesu Achosion Brys Meddygol

Dyddiad y gweithgarwch: 8 Rhagfyr 2020

Mae'r tabl isod yn cynnwys gwelliannau a nodwyd yn ystod Gwiriad Ansawdd Haen 1, lle rydym yn ei gwneud yn ofynnol i'r gwasanaeth gwblhau cynllun gwella sy'n dweud wrthym am y camau y mae'n eu cymryd i fynd i'r afael â'r meysydd hyn.

Noder, disgwylir i bob cam gweithredu gael ei gwblhau o fewn tri mis i'r Gwiriad Ansawdd a dylid cyflwyno fersiwn derfynol o'r Cynllun Gwella drwy Objective Connect ar ôl iddo gael ei gwblhau.

Rhif Cyfeirnod	Yr hyn sydd angen ei wella	Safon/Rheoliad	Cam Gweithredu'r Gwasanaeth	Swyddog Cyfrifol	Amserlen
1	Rhoddwyd tystiolaeth i ni o archwiliadau niwed briwiau pwysu a chwympiadau. Yn ogystal, gwelsom y cofnodion o ddigwyddiadau y rhoddodd yr uned wybod amdanynt. Er bod unrhyw ddysgu yn cael ei rannu mewn sesiynau briffio ar ddiogelwch a chyfarfodydd staff, nid oedd unrhyw ddull ar waith i fonitro pa staff a oedd wedi cael y nodiadau	Safon Gwella Ansawdd, Ymchwil ac Arloesi	3.3 Caiff holl wiriadau ansawdd AGIC eu rhannu â'r staff drwy e-bost, sesiynau briffio ar ddiogelwch a chopïau caled yn yr ystafelloedd staff.  Er mwyn sicrhau bod pob aelod o'r staff yn cael diweddariadau a nodiadau atgoffa'r gwasanaeth, bydd cofrestr yn cael ei chreu i staff ei llofnodi pan fyddant wedi cael y diweddariad. Caiff hyn ei gwblhau	Rheolwr Uned	Ar unwaith.

<p>atgoffa a'r gwersi a ddysgwyd.</p> <p>Rhaid i'r bwrdd iechyd roi dull ar waith i sicrhau bod pob aelod o'r staff yn cael y nodiadau atgoffa a'r gwersi a ddysgwyd yn dilyn unrhyw ddigwyddiadau a gwiriadau ansawdd AGIC. Rhaid i hyn gael ei ddogfennu i sicrhau bod tystiolaeth ysgrifenedig i ddangos bod pob aelod o'r staff yn derbyn y wybodaeth berthnasol. Rhaid iddi hefyd sicrhau cydymffurfiaeth â'r safonau yn y dyfodol, fel gwneud yn siŵr bod nodiadau'r cleifion yn gyflawn.</p>		<p>dros gyfnod o bythefnos. Bydd unrhyw aelodau o'r staff nad ydynt wedi llofnodi yn cael diweddariad ar wahân. Bydd y nodiadau atgoffa hyn hefyd yn cael eu hanfon drwy e-bost a fydd yn gofyn i'r staff gadarnhau eu bod wedi'u darllen.</p> <p>Mae'r Bwrdd Iechyd Prifysgol wedi datblygu proses lle caiff rhestr wirio hunanasesu ei llunio yn dilyn arolygiadau/ymweliadau/gwiriadau ansawdd AGIC. Bydd hyn yn nodi materion ar gyfer dysgu ehangach a gellir ei dosbarthu i'r Bwrdd Iechyd Prifysgol cyfan drwy strwythurau Byrddau Clinigol.</p> <p>Bydd diweddariadau AGIC a dysgu hefyd yn cael eu cynnwys mewn Cylchlythyrau Ansawdd a Diogelwch Cleifion rheolaidd.</p> <p>Bydd y Bwrdd Iechyd Prifysgol yn cyflwyno archwiliad bob chwe mis yn seiliedig ar ganfyddiadau arolygon AGIC er mwyn sicrhau bod gwersi wedi'u dysgu a bod yr hyn a ddysgir</p>	<p>Pennaeth Diogelwch Cleifion Sicrhau Ansawdd</p> <p>a</p> <p>Pennaeth Diogelwch Cleifion Sicrhau Ansawdd</p> <p>a</p> <p>Pennaeth Diogelwch Cleifion Sicrhau Ansawdd</p> <p>a</p>	<p>Ar waith</p> <p>Ar waith</p> <p>Cyflwynir erbyn Mehefin 2021</p>
---	--	---	---	---

			yn cael ei roi ar waith ac yn cael ei ymgorffori'n barhaus. Drwy wneud hyn, byddwn yn ystyried a ellir cyflawni hyn drwy gynllun achredu y Ward Berffaith.		
2	<p>Nid oedd yr uned yn gallu darparu tystiolaeth o asesiad risg amgylcheddol.</p> <p>Mae'n rhaid i'r bwrdd iechyd sicrhau bod asesiad risg amgylcheddol yn cael ei gynnal, ynghyd â chynllun gweithredu a gaiff ei ddiweddarau'n rheolaidd. Rhaid i'r asesiad risg gael ei ddiweddarau'n rheolaidd, a hynny'n ddigon aml i sicrhau y caiff risgiau eu nodi a chamau lliniaru eu cymryd. Ar ôl ei gwblhau, rhaid i'r asesiad risg amgylcheddol gael ei hanfon i AGIC.</p>	Safon 2.1 Rheoli Risg a Hybu Iechyd a Diogelwch	Gofynnwyd i'r adran Iechyd a Diogelwch gynnal archwiliad amgylcheddol fel mater o frys.	Swyddog Iechyd a Diogelwch	Cwblhau erbyn diwedd mis Chwefror 2021
3	<p>Roedd angen adolygu un o'r ddwy ddogfen Atal a Rheoli Heintiau a ddewiswyd er mwyn sicrhau ei bod yn dal i adlewyrchu arferion cyfredol.</p> <p>Rhaid i'r bwrdd iechyd sicrhau bod dogfennau sydd wedi darfod yn</p>	Safon 2.4 Atal a Rheoli Heintiau a Dihalogi			

	<p>cael eu hadolygu, eu diwygio a'u hailgyhoeddi fel y bo angen. Rhaid i'r bwrdd iechyd roi gwybod i AGIC:</p> <ul style="list-style-type: none"> <li>• Pam na chafodd y rhain eu hadolygu ar amser</li> <li>• Erbyn pryd y caiff hyn ei wneud</li> <li>• Pa broses y bydd yn ei rhoi</li> </ul>		<p>Cafodd y ddogfen 'INFECTION CONTROL PROCEDURE FOR INFECTIOUS INCIDENTS AND OUTBREAKS IN UNIVERSITY HEALTH BOARD HOSPITALS' ei hadolygu ar yr adeg briodol. Am nad oedd unrhyw newidiadau cenedlaethol wedi'u gwneud, ni chafodd y weithdrefn ei newid ac nid aeth drwy'r broses adolygu ffurfiol gan fod angen adolygu gweithdrefnau eraill ar fwy o frys ar y pryd. Mae datganiad ar dudalen y porthol clinigol Atal a Rheoli Heintiau sy'n nodi '<u>Some policies are due for review. Please refer to existing policies in the meantime</u>'.  Cafodd y canllawiau eu hadolygu'n ffurfiol ym mis Mehefin 2020 a'u rhannu er mwyn i bobl wneud sylwadau arnynt yn unol â chanllawiau/proses gymeradwyo'r Bwrdd Iechyd. Cafodd y weithdrefn ei chadarnhau ym mis Tachwedd 2020 a bydd yn cael ei diweddarau ar y</p>	<p>Nyrs Arweiniol ar gyfer Atal a Rheoli Heintiau</p> <p>Nyrs Arweiniol ar gyfer Atal a Rheoli Heintiau</p> <p>Nyrs Arweiniol ar gyfer Atal a Rheoli Heintiau</p>	<p>Ionawr 2021</p> <p>Adolygu</p>
--	--	--	---	---	-----------------------------------



	<p>ar waith i sicrhau y caiff y dogfennau pwysig hyn eu hadolygu fel sy'n ofynnol yn y dyfodol.</p>		<p>porthol clinigol yn fuan.</p> <p>Mae gan y Bwrdd Iechyd broses ar waith i adolygu Gweithdrefnau Atal a Rheoli Heintiau er mwyn sicrhau eu bod yn gyfredol. Mae Grŵp Rheoli ac Atal Heintiau ar waith wedi'i gadeirio gan y Cyfarwyddwr Nyrsio Gweithredol ac mae'n cyfarfod bob deufis. Trafodir pob gweithdrefn Atal a Rheoli Heintiau y mae angen ei hadolygu, gan gynnwys unrhyw ganllawiau cenedlaethol newydd a gyhoeddwyd.</p> <p>Er mwyn sicrhau bod yr holl ganllawiau ar Atal a Rheoli Heintiau yn cael eu hadolygu a'u diweddarau'n amserol, sefydlwyd fforwm ar wahân yn benodol ar gyfer canllawiau/gweithdrefnau COVID-19, a arweinir gan y tîm Atal a Rheoli Heintiau. Mae hyn yn sicrhau y gall y Bwrdd Iechyd gadw i fyny â galwadau'r newidiadau mynych i'r canllawiau/gweithdrefnau COVID-19, gan leihau'r effaith ar ganllawiau/gweithdrefnau Atal a Rheoli Heintiau eraill ar yr un pryd.</p>		<p>ym mis Mehefin 2021; 2021 Rhagfyr 2020.</p>
4	Dywedwyd wrthym na fyddai	Safon 2.1	Gall hyd yr arhosiad gael ei gofnodi	Rheolwr	Mis Mawrth

	<p>cleifion yn aros yn yr uned am fwy na 48 awr fel arfer, ond roedd achlysuron pan fu cleifion yn yr uned am fwy o amser na hyn. Fodd bynnag, ni chasglwyd unrhyw ddata a fyddai'n dangos pa mor aml y mae hyn yn digwydd. Hefyd, dywedwyd wrthym nad oedd data'n cael eu casglu i gofnodi am ba mor hir roedd cleifion yn yr uned neu'n aros i gael eu gweld gan weithiwr gofal iechyd proffesiynol. Er ei bod yn ddigon posibl bod y staff yn ymwybodol o hyd arhosiad cleifion unigol yn yr uned, mae cyfle yn cael ei golli i nodi themâu a thueddiadau drwy beidio â chasglu'r wybodaeth hon.</p> <p>Dylai'r bwrdd iechyd ystyried cyflwyno targedau a mesurau, yn ymwneud ag amseroedd aros yn yr uned, i gynnwys y canlynol:</p> <ul style="list-style-type: none"> <li>• Hyd yr arhosiad yn amrywiol ardaloedd yr MEAU</li> <li>• Hyd yr arhosiad yn yr MEAU</li> <li>• Hyd yr arhosiad ar welyau, trolïau a chadeiriau</li> </ul>	<p>Rheoli Risg a Hybu Iechyd a Diogelwch</p>	<p>gan Weithfan Gwaith Clinigol y Ward. Caiff adroddiad ei lunio. Defnyddir yr adroddiad hwn i uwchgyfeirio a blaenoriaethu cleifion drwy'r timau mynediad cleifion a thîm yr Uwchnyrs. Yna, caiff hyd yr arhosiad ei drafod yng nghyfarfodydd Ansawdd a Diogelwch y gyfarwyddiaeth.</p> <p>Caiff y broses o gofnodi a diffinio hyd yr arhosiad fesul ardal ei hadolygu a'i hymgorffori yn y gwaith trawsnewid sydd ar y gweill.</p> <p>Bydd y Bwrdd Meddygaeth Glinigol yn ystyried cyflwyno targedau a mesurau ar amseroedd aros yn yr uned yn ei gyfarfod Ansawdd a Diogelwch nesaf.</p>	<p>gwasanaeth</p> <p>Cyfarwyddwr Gweithrediadau / Cyfarwyddwr Nyrsio</p>	<p>2021.</p> <p>Ionawr 2021.</p>
--	---	--	---	--	----------------------------------

	triniaeth. Hefyd, unrhyw fesurau eraill y gellid eu defnyddio i hysbysu'r bwrdd iechyd er budd cleifion.				
--	--	--	--	--	--

Rhaid i'r adran ganlynol gael ei chwblhau gan gynrychiolydd y gwasanaeth sy'n bennaf cyfrifol ac atebol am sicrhau y caiff y cynllun gwella ei roi ar waith.

Enw: Rebecca Aylward

Dyddiad: 6/01/21